<table>
<tr><th colspan="2">CYNGOR SIR YNYS MÔN</th></tr>
<tr><td>Adroddiad i:</td><td>Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio</td></tr>
<tr><td>Dyddiad:</td><td>16 Gorffennaf 2026</td></tr>
<tr><td>Pwnc / Testun:</td><td>Datganiad Llywodraethu Blynyddol (AGS) Drafft</td></tr>
<tr><td>Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:</td><td>Huw Ynyr<br>Pennaeth Digidol, Perfformiad a Moderneiddio<br>HuwYnyr@ynysmon.llyw.cymru</td></tr>
<tr><td>Awdur yr Adroddiad:</td><td>Gwyndaf Parry<br>Rheolwr Perfformiad Strategol a Phrosiectau<br>GwyndafParry@ynysmon.llyw.cymru<br><br>Alwyn Williams<br>Dadansoddwr Perfformiad a Busnes Corfforaethol<br>AlwynWilliams@ynysmon.llyw.cymru</td></tr>
<tr><td colspan="2">Natur a Rheswm dros Adrodd:<br>Mae’r Pwyllgor yn derbyn yr adroddiad yma yn unol a rhan 3.4.8.4.2 o’r Cylch Gorchwyl:<br><br>3.4.8.4.2 Bydd y Pwyllgor yn adolygu a chymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol a bydd yn ystyried p’un yw'n adlewyrchu'r amgylchedd risg a'r sicrwydd ategol yn briodol, gan gynnwys barn flynyddol y Pennaeth Archwilio a Risg. Bydd y Pwyllgor yn penderfynu p’un a yw’r arfarniad blynyddol ar gyfer y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn casglu’n deg bod y trefniadau llywodraethu yn addas i bwrpas, a’u bod yn cynorthwyo i gyflawni amcanion yr awdurdod.</td></tr>
</table>

## Cyflwyniad

1. Er mwyn arddangos Llywodraethu da, rhaid i’r Awdurdod ddangos ei fod yn cydymffurfio â’r egwyddorion craidd (ac ategol) sydd yn y ‘Framework for Delivering Good Governance in Local Government’ (CIPFA / Solace, 2016). Mae’r datganiad hwn wedi’i baratoi yn unol â’r egwyddorion hynny.

2. Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn gyfrifol am sicrhau bod ei fusnes yn cael ei weithredu’n unol â’r gyfraith a’r safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu a’i gyfrif amdano’n briodol, a’i fod yn cael ei ddefnyddio’n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol.

3. Mae’r Cyngor hefyd yn gyfrifol am roi yn eu lle drefniadau priodol ar gyfer llywodraethu ei faterion, gan hwyluso gweithrediad effeithiol ei swyddogaethau, ac mae hynny’n cynnwys trefniadau i reoli risg, a rheolaeth ariannol ddigonol ac effeithiol.

## Argymhelliad

4. Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn adolygu ac yn cymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol Drafft a fydd yn rhan o Ddatganiad Cyfrifon 2025/26

# Datganiad Llywodraethu Blynyddol Drafft 2025/26

DRAFFT

**Paratowyd gan:** Y Grŵp Llywodraethu

**Dyddiad Cyhoeddi:** Mehefin 2026

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English

# Cynnwys


Cwmpas y Cyfrifoldeb ........ 3
Y Fframwaith Llywodraethu ........ 4
Llywodraethiant Gwleidyddol ........ **Error! Bookmark not defined.**
Newidiadau i Strwythur y Sefydliad ........ 4
Adolygiad o Effeithiolrwydd ........ 5
Adolygiad Blynyddol o Effeithiolrwydd Fframwaith Llywodraethu'r Cyngor ........ 6
Casgliad yr Asesiad ........ 6
Datganiadau'r Swyddogion Statudol ........ 8
Materion Llywodraethu a Nodwyd ........ 10
Cynnydd mewn perthynas â'r Materion Llywodraethu a Nodwyd y llynedd ........ 10
Gwaith llywodraethu nodedig arall a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn ........ 15
Materion Llywodraethu a Nodwyd 2025/26 ........ 16
Ardystio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ........ 19
Atodiad 1 ........ 20
Cod Rheolaeth Ariannol CIPFA (2019) ........ 20
Casgliad Statudol: ........ 20


DRAFT

## Cwmpas y Cyfrifoldeb

Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn gyfrifol am sicrhau ei fod yn cynnal ei fusnes yn unol â'r gyfraith a'r safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu a'i gyfrif amdano'n briodol, a sut mae arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio.

Mae dyletswydd ar y Cyngor hefyd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 i wneud trefniadau i sicrhau gwelliannau parhaus yn y modd y mae'n arfer ei swyddogaethau, gan ystyried cyfuniad o fod yn ddarbodus, yn effeithlon ac effeithiol.

Wrth gyflawni'r cyfrifoldeb cyffredinol hwn, mae'r Cyngor hefyd yn gyfrifol am roi yn eu lle drefniadau priodol ar gyfer llywodraethu ei fusnes, a'i gwneud yn bosib iddo arfer ei swyddogaethau yn effeithiol, gan gynnwys trefniadau i reoli risg, ynghyd â rheolaeth ariannol ddigonol ac effeithiol.

Fe wnaeth y Cyngor gymeradwyo a mabwysiadu'r cod llywodraethu corfforaethol lleol diwygiedig ym mis Mawrth 2022, sy'n gyson â saith egwyddor graidd Fframwaith CIPFA/SOLACE 'Delivering Good Governance in Local Government', yn cynnwys y canllawiau a ddiweddarwyd a nodir yn Adendwm CIPFA/SOLACE ar y Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Mae'r Cyngor yn parhau i adolygu a chryfhau ei drefniadau llywodraethu yn unol ag arfer dda sy'n esblygu, yn cynnwys gofynion Adendwm CIPFA/SOLACE a ffurfio Grŵp Llywodraethu mewnol.

Mae'r datganiad hwn yn egluro sut y gwnaeth y Cyngor gydymffurfio â'r cod a sut mae'n ateb gofynion ymarfer priodol anstatudol sy'n annog cyhoeddi Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Mae hefyd yn diwallu gofynion rheoliad 5 o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 mewn perthynas â chyhoeddi datganiad ar reolaeth fewnol.

DRAFT

# Y Fframwaith Llywodraethu

Mae'r fframwaith llywodraethu'n cynnwys y systemau, prosesau a gwerthoedd diwylliannol sy'n rheoli ac yn gosod cyfeiriad i'r Cyngor. Mae hefyd yn arwain y gweithgareddau a ddefnyddir i roi cyfrif, ymgysylltu ac arwain y gymuned. Mae'n galluogi'r awdurdod i fonitro pa mor dda y mae'n cyflawni ei amcanion strategol ac ystyried a yw'r amcanion hynny wedi arwain at ddarparu gwasanaethau priodol, cost-effeithiol.

Mae'r system reolaeth fewnol yn rhan sylweddol o'r fframwaith honno ac wedi'i dylunio i reoli risg i lefel resymol. Ni all ddileu pob risg o fethu â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion a dim ond sicrwydd rhesymol, nid sicrwydd llwyr, y gellir ei rhoi o ran effeithiolrwydd.

## Llywodraethiant Gwleidyddol

Roedd y Cyngor wedi'i dristau'n fawr gan farwolaeth dau Aelod Etholedig, sef y Cynghorydd Trefor Ll Hughes ym mis Tachwedd 2025, a oedd yn cynrychioli Ward Cybi, a'r Cynghorydd Ken Taylor ym mis Mai 2026, a oedd yn cynrychioli ward Bro'r Llynnoedd. Rhoddwyd gweithdrefnau angenrheidiol ar waith gan dîm Gwasanaethau Democrataidd y Cyngor i reoli'r seddi gweigion hyn. Mae un sedd wedi'i llenwi gan y Cynghorydd Celfyn Furlong yn dilyn isetholiad lleol, gan sicrhau fod cynrychiolaeth ddemocrataidd yn parhau ar gyfer ward Ynys Gybi, tra bod yr ail sedd yn wag ar hyn o byd, ond mae trefniadau ar y gweill i gynnal isetholiad. Trwy gydol y cyfnod hwn mae'r Swyddog Monitro a'r Gwasanaethau Democrataidd wedi sicrhau fod cydbwysedd gwleidyddol yn cael ei reoli a bod cworwm wedi'i gynnal yn llwyddiannus ar gyfer yr holl bwyllgorau statudol er mwyn sicrhau cadernid cyfreithiol penderfyniadau. Ni wnaed unrhyw newidiadau i'r strwythur pwyllgorau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

## Newidiadau i Strwythur y Sefydliad

Yn ystod 2025/26, fe wnaeth y Cyngor adolygu a chryfhau galluogrwydd a chapasiti ei Dîm Rheoli er mwyn alinio'n well â'i flaenoriaethau strategol a'i agenda moderneiddio. Yn dilyn ymadawiad y Pennaeth Proffesiwn AD a Thrawsnewid, ailstrwythurwyd y Gwasanaeth Trawsnewid blaenorol trwy greu dau wasanaeth ar wahân sydd â ffocws penodol. Y gwasanaethau newydd yw'r gwasanaeth 'Digidol, Perfformiad a Moderneiddio' a'r gwasanaeth 'Adnoddau Dynol, Cyfathrebu a Phrofiad y Cwsmer'. Mae'r ail-alinio strategol hwn yn darparu capasiti arweinyddiaeth benodedig i yrru moderneiddio digidol ar yr un pryd â sicrhau trosolwg cadarn o'r fframweithiau gweithlu ac ymgysylltu â chwsmeriaid.

Yn ogystal â hynny, daeth y swyddogaethau gwella ysgolion a chefnogaeth addysgol o dan adain y Cyngor yn llawn ac yn ffurfiol yn ystod y flwyddyn, gan symud oddi wrth y model consortiwm blaenorol. O safbwynt llywodraethu, mae'r symudiad strategol hwn yn atgyfnerthu trefniadau rheoli risg ac mae'n sicrhau bod Gwasanaeth Dysgu'r Cyngor bellach ag atebolrwydd a throsolwg uniongyrchol, lleol o berfformiad ysgolion ac adeiladu capasiti.

## Adolygiad o Effeithiolrwydd

Mae gan Gyngor Sir Ynys Môn gyfrifoldeb am gynnal, o leiaf yn flynyddol, adolygiad o effeithlonrwydd ei fframwaith llywodraethu gan gynnwys y drefn rheolaeth fewnol. Mae'r adolygiad o effeithlonrwydd yn cael ei lywio gan waith rheolwyr o fewn y Cyngor sydd â chyfrifoldeb am ddatblygu a chynnal yr amgylchedd llywodraethu, adroddiad blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol, a hefyd sylwadau a wnaed gan archwilwyr allanol ac asiantaethau arolygu ac archwilio eraill.

Mae effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu wedi cael ei werthuso trwy gyfuniad o:

- yr Asesiad Perfformiad Panel statudol, oedd yn darparu sicrwydd allanol annibynnol ynghylch trefniadau llywodraethu, perfformiad a chapasiti'r Cyngor.
- canlyniadau adolygiadau a monitro cyson yn ystod y flwyddyn gan swyddogion a phwyllgorau;
- adolygiad o ddogfennau perthnasol a baratowyd yn ystod y flwyddyn, neu'n ymwneud â'r flwyddyn;
- adolygiad o gynnydd yn erbyn Cynllun y Cyngor;
- adolygu adborth gan archwilwyr ac arolygwyr allanol, gan gynnwys Archwilio Cymru, Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC);
- y panelau sgriwtini mewn perthynas â gwaith yn gysylltiedig â Chyllid, Addysg a'r Gwasanaethau Cymdeithasol;
- trafodaethau a derbyn sylwadau gan grwpiau o swyddogion ac aelodau, gan gynnwys yr Tîm Arweinyddiaeth a'r Pwyllgor Gwaith.

Yn ogystal, mae adolygiadau a monitro rheolaidd yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:-

- gweithgareddau rheoli risg ffurfiol, gan gynnwys ystyriaeth benodol o'r risgiau hynny sy'n gysylltiedig â phrosesau llywodraethu;
- archwilio mewnol, sydd â'i waith yn cynnwys archwilio'r risgiau mwyaf a nodwyd yn y Gofrestr Risgiau Strategol, gan gynnwys rheoli risgiau, a hynny'n unol â'r strategaeth archwilio mewnol flynyddol ac yn cynnwys gwaith 'dilynol' i sicrhau fod uwch swyddogion yn rhoi sylw i'r argymhellion a gytunwyd;
- gwaith Pwyllgorau Sgriwtini, Llywodraethu ac Archwilio a Safonau y Cyngor a phwyllgorau eraill;
- barn ac argymhellion archwilwyr allanol y Cyngor ynghyd ag asiantaethau adolygu ac arolygwyr eraill;
- monitro cyson gan aelodau ac uwch-reolwyr o welliant a pherfformiad yn erbyn Cynllun y Cyngor a'r cynlluniau a'r strategaethau ategol.

# Adolygiad Blynyddol o Effeithiolrwydd Fframwaith Llywodraethu'r Cyngor

## Casgliad yr Asesiad

Mae’r tabl isod yn darparu casgliad yr asesiad ar gyfer 2025/26:

| Egwyddorion Craidd y Fframwaith | Casgliad yr asesiad |
|---|---|
| **Egwyddor A:** Ymddwyn yn ddidwyll, gan ddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol a pharchu rheolaeth y gyfraith | Mae’r Cyngor yn parhau i gynnal gwerthoedd moesegol cadarn a pharchu rheolaeth y gyfraith. Cefnogir y trefniadau hyn gan Gyfansoddiad y Cyngor, Codau Ymddygiad a fframwaith Safonau, ynghyd â diweddaru strategaethau atal twyll a threfniadau cyfansoddiadol yn barhaus er mwyn cryfhau trosolwg. Un o’r prif flaenoriaethau allweddol ar gyfer y flwyddyn nesaf yw sicrhau fod y sefydliad yn barod i weithredu a chydymffurfio â Deddf Caffael 2023, ac mae hyn yn cael ei reoli ar lefel strategol er mwyn ymgorffori arferion cyson ym mhob gwasanaeth. Mae’r Cyngor yn parhau i hyrwyddo diwylliant sefydliadol cryf sydd yn seiliedig ar ei werthoedd ei hun, ac mae’r Asesiad Perfformiad Panel yn amlygu’r berthynas adeiladol rhwng aelodau a swyddogion, gweithlu ymrwymedig a chydweithio cadarnhaol ar draws y sefydliad. |
| **Egwyddor B:** Sicrhau natur agored ac ymgysylltu cynhwysfawr â rhanddeiliaid | Mae’r Cyngor yn arddangos ymrwymiad cryf i fod yn agored, yn hygyrch ac i ymgysylltu’n weithredol â’r cyhoedd. Mae partneriaethau cydweithredol ac ymgynghoriadau cyhoeddus yn parhau i siapio’r modd y caiff gwasanaethau eu darparu a chynlluniau gwydnwch cymunedol. Mae’r Cyngor yn cynnal trefniadau effeithiol i sicrhau fod preswylwyr yn gallu cael mynediad at wybodaeth a dylanwadu ar benderfyniadau ac mae monitro perfformiad ceisiadau am wybodaeth yn cefnogi hyn er mwyn sicrhau fod y Cyngor yn ymatebol a thryloyw. |
| **Egwyddor C:** Diffinio canlyniadau yn nhermau buddion economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol cynaliadwy | Mae ymrwymiad y Cyngor i ddarparu buddion economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol yn cael ei gyfleu’n glir yng Nghynllun y Cyngor. Mae bwriad strategol yn parhau i fod yn gryf, ac mae’n cael ei gefnogi gan gynlluniau cyngor cyfan i symleiddio cefnogaeth i breswylwyr a mynd i’r afael â thlodi. I sicrhau fod y canlyniadau hyn yn cael eu gwireddu’n llawn, mae’r Cyngor yn canolbwyntio ar wreiddio’r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol yn fwy cyson mewn penderfyniadau lefel uchel a chryfhau’r defnydd o ganlyniadau mesuradwy er mwyn gyrru’r ddarpariaeth gwasanaeth. Datblygwyd Cynllun y Cyngor yn unol â’r egwyddor datblygu cynaliadwy a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru), gan sicrhau fod agweddau ataliol a chydweithredol yn cael eu gwreiddio ym mhob rhan o’r sefydliad. |
| **Egwyddor D:** Pennu’r ymyriadau sy’n angenrheidiol i sicrhau ein bod yn cyflawni’r canlyniadau a fwriedir hyd eithaf ein gallu | Mae’r Cyngor yn cynnal fframwaith rheoli perfformiad sydd wedi hen sefydlu ac sy’n cyd-fynd â Chynllun y Cyngor, gan sicrhau fod ymyraethau gwasanaeth yn cael eu targedu’n briodol a’u bod yn seiliedig ar dystiolaeth. Er mwyn cryfhau llywodraethiant a phenderfyniadau ymhellach, mae’r Cyngor yn mireinio ei brosesau dilysu data i sicrhau fod swyddogaethau’r Pwyllgor Gwaith a Sgriwtini yn cael eu cefnogi gan wybodaeth gadarn o safon uchel er mwyn caniatáu her effeithiol, atebolrwydd a throsolwg strategol. |

| Egwyddorion Craidd y Fframwaith | Casgliad yr asesiad |
|---|---|
| **Egwyddor E:** Datblygu capasiti'r endid, ynghyd â gallu ei arweinyddion a'r unigolion ynddo | Mae arweinyddiaeth a chapasiti'r gweithlu'n cael eu rheoli'n dda, ac mae hyn yn cael ei gefnogi gan raglenni talent a datblygu sydd wedi'u sefydlu ac sydd bellach wedi'u greiddio yn y trefniadau busnes fel arfer. Mae'r Cyngor yn cydnabod cymhlethdod cynyddol gofynion statudol diogelu data, ac mae cryfhau gwydnwch o ran Llywodraethu Gwybodaeth yn flaenoriaeth llywodraethu allweddol ar gyfer 2026/27. Mae hyn yn cynnwys datblygu modelau capasiti cynaliadwy ar gyfer rolau statudol arbenigol ac atgyfnerthu diwylliant o ddiogelwch data ar draws y sefydliad. Mae capasiti'r gweithlu, gan gynnwys recriwtio, cadw staff a pharhad mewn arweinyddiaeth yn parhau i gael ei fonitro drwy Gofrestr Risgiau Strategol y Cyngor, gan sicrhau trosolwg a rheolaeth briodol o'r heriau strategol hyn. |
| **Egwyddor F:** Rheoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a rheoli arian cyhoeddus yn gadarn | Mae rheolaethau ariannol y Cyngor yn gweithredu'n effeithiol iawn. Mae gwaith archwilio oedd yn edrych ar daliadau a wnaed gan y Cyngor yn dyst i hyn gan ei fod yn dangos fod cywirdeb trafodion yn uchel iawn ac, yn ogystal â hynny, derbyniwyd barn ddiamod gan Archwilio Cymru ar y Datganiad Cyfrifon Blynyddol, gan gadarnhau nad oedd unrhyw wendidau sylweddol yn y rheolaethau mewnol. Mae'r Cyngor yn cydymffurfio â Chod Rheolaeth Ariannol CIPFA.<br>Mae gwydnwch ariannol tymor canolig yn parhau i gael ei reoli'n fwriadus, gan gynnwys ymateb i heriau setliadau ariannol am flwyddyn ar y tro yn unig, trwy ddatblygu Cynllun Strategol Moderneiddio trawsbynciol, yn unol ag argymhelliad yr Asesiad Perfformiad Panel, er mwyn cefnogi cynaliadwyedd yn y tymor hir.<br>Mae trefniadau rheoli risgiau strategol wedi'u hen sefydlu, ac mae'r Tîm Arweinyddiaeth a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn craffu'n rheolaidd ar y Gofrestr Risgiau Strategol. Er bod trefniadau rheoli risgiau gwasanaeth ar waith, nodwyd peth anghysondeb wrth adolygu cofrestri risgiau Gwasanaeth ac mae cynllun gwella wedi'i lunio ar gyfer 2026/27. |
| **Egwyddor G:** Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio er mwyn cyflawni | Mae atebolrwydd, tryloywder a threfniadau adrodd yn gadarn ac effeithiol, ac maent yn cael eu cefnogi gan brosesau archwilio mewnol ac allanol cadarn ac mae rheolwyr yn ymateb yn dda iawn wrth fynd i'r afael â risgiau a gwendidau mewn rheolaethau a nodwyd. Mae Archwilio Mewnol yn darparu sicrwydd trydedd linell drwy ei waith archwilio seiliedig ar risg a'r farn flynyddol gyffredinol. Mae trefniadau llywodraethu'r Cyngor wedi cael eu dilysu'n allanol drwy'r Asesiad Perfformiad Panel statudol. Mae adolygiad allanol wedi nodi cyfleoedd i gryfhau effeithiolrwydd swyddogaeth sgriwtini'r Cyngor ymhellach, ac mae hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth llywodraethu allweddol ar gyfer 2026/27. Er bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud o ran adolygu'r llinell sicrwydd gyntaf a'r ail linell sicrwydd, mae cwblhau fframwaith mapio sicrwydd Cyngor cyfan yn parhau'n flaenoriaeth. Yn ystod y flwyddyn fe wnaeth y Cyngor ymateb i ymchwiliad gan reoleiddiwr mewn perthynas â swyddogaethau Rheolaeth Adeiladu. Sefydlwyd trefniadau llywodraethu a throsolwg mwy cadarn i sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion statudol er mwyn cryfhau rheolaeth fewnol. Ni nodwyd unrhyw faterion llywodraethiant sylweddol yn ystod y flwyddyn. |

## Datganiadau'r Swyddogion Statudol

| | |
|---|---|
| **Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig**<br><br>Dylan Williams<br>**Prif Weithredwr** | "Fel Prif Weithredwr Cyngor Sir Ynys Môn, rydw i'n ymfalchïo yn y ffaith ein bod ni'n sicrhau bod gennym drefniadau llywodraethu effeithiol ar waith er mwyn cynnal tryloywder, atebolrwydd a safonau gwasanaeth cyhoeddus o'r radd flaenaf.<br><br>Mae fy rôl yn cynnwys darparu arweiniad a chyfarwyddyd strategol i'r sefydliad, gan weithio'n agos ag aelodau etholedig, swyddogion a phartneriaid. Rwyf yn fodlon bod gennym fframwaith llywodraethu cadarn, ffaith a ddilyswyd eleni yn sgil y sicrwydd annibynnol a dderbyniwyd fel rhan o'n Asesiad Perfformiad Panel statudol. Er hynny, nid ydym yn aros yn ein hunfan. Mae llywodraeth leol yn parhau i wynebu galw digynsail ac rydym wedi ymrwymo i fynd i'r afael â hyn trwy ddatblygu Cynllun Strategol Moderneiddio trawsbynciol.<br><br>Trwy ymgysylltu'n rheolaidd â rhanddeiliaid, rydym wedi meithrin diwylliant o gyfathrebu agored a gwelliant parhaus. Rwyf yn ffyddiog bod ein trefniadau llywodraethu'n darparu'r sylfaen gref sydd ei hangen i wireddu ein hamcanion strategol, addasu i heriau yn y dyfodol a chyflawni ein cyfrifoldebau i drigolion Ynys Môn." |

| | |
|---|---|
| **Swyddog Adran 151**<br><br>Marc Jones<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)** | "Fel Swyddog Adran 151, mae'n gyfrifoldeb statudol arnaf i gynnal trosolwg o reolaeth ariannol y Cyngor a sicrhau bod cyllid cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio'n briodol ac yn effeithlon.<br><br>Rydw i'n falch fod rheolaethau ariannol craidd a fframweithiau rheoli risg strategol y Cyngor yn parhau i weithredu yn hynod effeithiol, gan ddarparu sylfaen gadarn ar gyfer stiwardiaeth ariannol. Mae cywirdeb eithriadol o gryf trafodion yn tystio i hyn, ynghyd â'r sicrwydd annibynnol a ddarparwyd gan ein harchwilwyr mewnol ac allanol.<br><br>Fodd bynnag, mae sicrhau cynaliadwyedd ariannol hirdymor yn parhau'n her sylweddol. Mae dibyniaeth ar setliadau ariannol am flwyddyn ar y tro, ynghyd â phwysau economaidd parhaus, yn parhau i gyfyngu ar gynllunio ariannol hirdymor manwl iawn. Er gwaethaf hyn, trwy gynllunio ariannol tymor canolig diwyd, rheolaeth gyllidebol ddisgybledig a'n hymrwymiad i drawsnewid gwasanaethau, rydw i'n hyderus bod ein trefniadau llywodraethu yn diogelu adnoddau'r Cyngor ac yn cefnogi rheolaeth ariannol ddarbodus a gwydn." |

| | |
|---|---|
| **Swyddog Monitro**<br><br>Lynn Ball<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) /** | "Fel Swyddog Monitro, un o fy mhrif swyddogaethau yw gweithio'n agos ag aelodau etholedig a swyddogion i hyrwyddo llywodraethu da, sicrhau penderfyniadau cyfreithlon a chynnal y Cyfansoddiad ar draws y Cyngor.<br><br>Mae'r Cyngor yn cynnal fframwaith llywodraethu cadarn ac rydym yn mynd ati'n fwriadol i sicrhau bod ein diwylliant gwaith yn adlewyrchu'r gofynion hynny ac yn hyrwyddo atebolrwydd, tryloywder ac uniondeb ein penderfyniadau democrataidd.<br><br>Eleni, rydym wedi parhau i fireinio ein trefniadau cyfansoddiadol i sicrhau eu bod yn parhau'n hyblyg ac addas i bwrpas. Mae meithrin safonau uchel o ymddygiad moesegol a sicrhau fod y Cyngor yn barod ar gyfer fframweithiau statudol newydd, megis Deddf Caffael 2023 a gwydnwch diogelu data parhaus, yn hanfodol. Rydw i'n fodlon bod ein trefniadau llywodraethu'n darparu'r mesurau diogelu cyfreithiol a moesegol angenrheidiol i ganiatáu'r Cyngor gyflawni ei gyfrifoldebau'n effeithiol ac yn gyfreithiol." |

| | |
|---|---|
| **Pennaeth Archwilio Mewnol**<br><br>Marion Pryor | "Fel Pennaeth Archwilio a Risg, fy swyddogaeth statudol yw darparu barn flynyddol annibynnol a gwrthrychol ynglŷn â digonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth y Cyngor. Yn seiliedig ar y gwaith archwilio mewnol a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn, mae fy nghasgliad ffurfiol fel a ganlyn:<br><br>***Ar gyfer y 12 mis a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026, barn Pennaeth Archwilio a Risg Cyngor Sir Ynys Môn yw bod gan y sefydliad fframwaith digonol ac effeithiol ar gyfer rheoli risg, llywodraethu a rheolaeth fewnol. Er nad wyf yn ystyried bod pryder corfforaethol sylweddol ynglŷn ag unrhyw feysydd, mae angen cyflwyno neu wella rheolaethau mewnol mewn rhai meysydd er mwyn sicrhau bod amcanion yn cael eu cyflawni, a'u bod yn cael eu monitro. Mae hon yn farn ddiamod.***" |

# Materion llywodraethu a nodwyd

## Cynnydd mewn perthynas â’r Materion Llywodraethu a nodwyd y llynedd

Mae’r tabl isod yn amlinellu’r materion llywodraethu a nodwyd y llynedd ac yn cynnwys diweddariad ar gynnydd:

| **Materion llywodraethu a nodwyd** | **Swyddog / Gwasanaeth / Bwrdd Arweiniol** | **Diweddariad ar gynnydd** | **Statws CAMG** |
|---|---|---|---|
| 1. Mae’n rhaid i’r Cyngor sicrhau ei fod yn bodloni gofynion y ddeddf Caffael newydd, sef Deddf Caffael 2023 | Adnoddau | Mae’r Cyngor wedi parhau i roi’r Cynllun Gwella Caffael ar waith, er gwaethaf heriau cychwynnol wrth recriwtio i’r swydd Rheolwr Caffael. Mae trefniadau dros dro wedi sicrhau parhad, gyda staff asiantaeth yn cefnogi’r gwaith o wireddu’r cynllun gweithredu, tra bod polisïau a gweithdrefnau wedi cael eu hadolygu a’u diweddaru yn unol â gofynion Deddf Caffael 2023. Cyflwynwyd hyfforddiant ar draws yr Awdurdod hefyd, er mwyn cryfhau dealltwriaeth a chydymffurfiaeth staff.<br>Mae penodi Rheolwr Caffael parhaol, sydd yn y swydd ers Ebrill 2026, yn darparu capasiti ychwanegol i ddatblygu caffael ymhellach ar draws y Cyngor. Cymeradwyodd y Cyngor gynnydd yng nghyllideb y Tîm Caffael yn 2026/27 er mwyn cyflogi aelod ychwanegol o staff a buddsoddi mewn systemau caffael fydd yn sicrhau gwell cydymffurfiaeth, gwell gwybodaeth reoli, gwell rheolaeth o berfformiad contractau a gwell rheolaeth ac adrodd ar werth cymdeithasol a buddion cymunedol.<br>Er bod cynnydd yn arafach na’r disgwyl, dengys y gweithredoedd hyn fod y sylfeini allweddol yn cael eu sefydlu er mwyn gwreiddio arferion caffael sydd yn gyson ac yn cydymffurfio â’r gofynion ar draws y Cyngor. | Ar ei hôl hi |
| 2. Mae angen i’r Cyngor ymateb i heriau a nodwyd mewn perthynas â chynllunio’r gweithlu, gan gynnwys ei broffil oedran mewn rhai gwasanaethau | Pennaeth Adnoddau Dynol, Cyfathrebu a Phrofiad y Cwsmer | Mae’r Cyngor wedi gwneud cynnydd cadarnhaol wrth ymateb i heriau cynllunio’r gweithlu, yn enwedig wrth fynd i’r afael â phwysau’n gysylltiedig â recriwtio a chadw mewn gwasanaethau allweddol. Cyflwynwyd dull recriwtio wedi’i dargedu drwy’r Rhaglen Denu Talent, rhan o Gynllun Dyfodol Môn, ac mae wedi bod ar waith yn llwyddiannus am ddwy flynedd yn olynol. Mae’r cynllun hwn wedi | Wedi’i gwblhau ar gyfer 2025/26. Ystyrir fod y broses |

| Materion llywodraethu a nodwyd | Swyddog / Gwasanaeth / Bwrdd Arweiniol | Diweddariad ar gynnydd | Statws CAMG |
|---|---|---|---|
| a phroblemau recriwtio a chadw mewn eraill. | | cryfhau'r cyflenwad o weithwyr yn y dyfodol trwy ddenu pobl ifanc o'r chweched dosbarth, colegau a phrifysgolion ac mae nifer wedi mynd ymlaen i gael swyddi gyda'r Cyngor neu fynegi diddordeb mewn gyrfaoedd mewn meysydd megis gwaith cymdeithasol yn y dyfodol. Bydd y Tîm Dysgu a Datblygu'n parhau i ddatblygu'r dull hwn yn ystod 2026, ar y cyd â'r Gwasanaethau Cymdeithasol, gan gynorthwyo i gynnal capasiti'r gweithlu a gwneud y Cyngor yn gyflogwr mwy deniadol.<br>Mae'r Cyngor hefyd wedi sefydlu system fwy strwythuredig ar gyfer cynllunio'r gweithlu trwy gyswllt rheolaidd rhwng Adnoddau Dynol, Cyfarwyddwyr, Penaethiaid Gwasanaeth a Rheolwyr Busnes, gan sicrhau fod heriau'n gysylltiedig â'r gweithlu'n cael eu hadolygu fel mater o drefn a'u hadrodd i'r Tîm Arweinyddiaeth. Ochr yn ochr â hyn, lansiwyd y Rhaglen Graddedigion Dyfodol Môn, ac mae'r garfan gyntaf o raddedigion wedi cael eu penodi mewn sawl maes proffesiynol allweddol, gan gynnwys cyfrifeg, peirianneg a datblygu economaidd. Bydd y rhaglen yn parhau yn ystod 2026, gan barhau i ddarparu cyfleoedd i ddatblygu sgiliau arbenigol yn fewnol a chefnogi cynllunio olyniaeth. Gyda'i gilydd mae'r gweithredoedd hyn yn dangos bod gan y Cyngor agwedd ragweithiol a chynaliadwy tuag at dyfu ei weithlu ei hun a mynd i'r afael â heriau recriwtio a chadw yn y tymor hwy. | bellach yn rhan o drefniadau busnes arferol. |
| 3. Mae'n rhaid i'r cyngor reoli a rhesymoli asedau er mwyn sicrhau bod galw amdanynt a'u bod yn addas i'r diben, ac os nad ydynt yn addas i'r diben, adnabod y gwaith sydd angen ei wneud i sicrhau eu bod yn bodloni'r safonau. | Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | Mae'r Cyngor wedi rhoi gweithredoedd ar waith i gryfhau rheolaeth a chynaliadwyedd hirdymor ei asedau, gan gynnwys datblygu a mabwysiadu'r Cynllun Strategol Rheoli Asedau, y Cynllun Strategol Rheoli Mân-ddaliadau, gyda chymorth cyllid unwaith ac am byth, a pharhau i weithredu'r System Reoli Cyfleusterau gyda Chymorth Cyfrifiadur. Mae'r swyddogaethau craidd bellach yn weithredol, ac mae gwelliannau pellach ar y gweill er mwyn gwella data asedau, monitro ac integreiddio â systemau eraill y cyngor. | Ar ei hôl hi |

| Materion llywodraethu a nodwyd | Swyddog / Gwasanaeth / Bwrdd Arweiniol | Diweddariad ar gynnydd | Statws CAMG |
|---|---|---|---|
| | | Mae asedau ffisegol y Cyngor yn cael eu cydnabod fel risg strategol ac maent yn destun trosolwg strategol, gan sicrhau eu bod yn cael eu llywodraethu a'u blaenoriaethu'n briodol. Er bod y datblygiadau hyn yn darparu sylfaen gref ar gyfer rheoli asedau yn well, megis dechrau mae'r gwaith o resymoli asedau'r Cyngor a bydd angen gwella ansawdd data a systemau mwy aeddfed er mwyn llywio penderfyniadau yn y dyfodol. Cydnabyddir hefyd y bydd angen gwneud penderfyniadau strategol gwybodus ynghylch buddsoddi a blaenoriaethu er mwyn cynnal cynaliadwyedd hirdymor asedau'r Cyngor. | |
| 4. Mae gwydnwch ariannol y Cyngor dan bwysau oherwydd yr argyfwng costau byw a gostyngiad mewn cyllid. | Adnoddau | Mae'r Cyngor wedi defnyddio dull strwythuredig a rhagweithiol i gryfhau ei wydnwch ariannol mewn ymateb i bwysau costau byw parhaus a gostyngiad mewn cyllid. Un maes allweddol y canolbwyntiwyd arno oedd gwneud y gorau o incwm allanol, a pharhau i geisio sicrhau unrhyw grantiau oedd ar gael, a chyllid cyfalaf yn arbennig. Cefnogwyd hyn trwy gyflwyno protocol ffurfiol i awdurdodi bidiau a threfniadau monitro cadarn i sicrhau fod amodau grantiau'n cael eu bodloni'n llwyr ac osgoi colli unrhyw arian. Ochr yn ochr â hyn, diweddarwyd y Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) a'i fabwysiadu gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Medi 2025, gan ddarparu fframwaith strategol ar gyfer rheoli pwysau ariannol yn y dyfodol, a bwriedir ei fireinio ymhellach ar ôl cadarnhau cyllideb 2026/27.<br><br>Ochr yn ochr â hyn, mae'r Cyngor wedi gwireddu gwelliannau ariannol gwirioneddol trwy adnabod £975k o arbedion wrth osod cyllideb refeniw 2026/27, arian sydd wedi cael ei ail-fuddsoddi mewn gwasanaethau blaenoriaeth. Mae mesurau effeithlonrwydd ehangach hefyd yn cael eu gwreiddio mewn gwasanaethau, gan gynnwys buddsoddi mewn gwelliannau digidol a gweithredol, megis systemau ffôn gwell, mwy o ddefnydd o CRM, dulliau talu diogel a thechnolegau casglu incwm. Mae arian wrth gefn yn cael ei ddyrannu i gefnogi'r cynlluniau hyn er mwyn moderneiddio gwasanaethau ac maent yn | Wedi'i gwblhau ar gyfer 2025/26. Ystyrir fod y broses bellach yn rhan o drefniadau busnes arferol. |

| Materion llywodraethu a nodwyd | Swyddog / Gwasanaeth / Bwrdd Arweiniol | Diweddariad ar gynnydd | Statws CAMG |
|---|---|---|---|
| | | cyfrannu at ddarparu gwasanaeth yn fwy effeithlon ac effeithiol. Gyda'i gilydd mae'r gweithredoedd hyn yn dangos fod y Cyngor yn cymryd camau bwriadus i reoli pwysau ariannol wrth gynnal cynaliadwyedd gwasanaethau. | |
| 5. Mae angen i'r Cyngor barhau i foderneiddio ei seilwaith digidol a data. | Bwrdd Digidol | Mae'r Cyngor wedi parhau i foderneiddio ei seilwaith digidol a data, a chanolbwyntio'n arbennig ar gryfhau ei alluogrwydd mewn perthynas â data. Cymeradwywyd adnoddau ychwanegol yng nghyllideb 2026/27 i sefydlu rôl Rheolwr Data, fydd yn gyfrifol am ddatblygu, sicrhau cymeradwyaeth a gweithredu Cynllun Strategol Data.<br>Mae parhau i gyflawni'r Cynllun Strategol Digidol yn golygu fod systemau, diogelwch a gwasanaethau i gwsmeriaid wedi gwella, gan gynorthwyo i foderneiddio gwasanaethau a gwella'r defnydd o offerynnau digidol ar draws y sefydliad. Mae gwaith wedi'i dargedu wedi'i wneud hefyd i adolygu'r model Canolfan Gyswllt Cwsmeriaid, a chytunwyd ar gyfleoedd gwella fydd yn llywio'r cam datblygu nesaf. Fodd bynnag, ailaseswyd y datrysiad sgwrs fôt a gynigiwyd yn flaenorol ac ni ystyrir bellach fod y dull presennol yn ymarferol a bydd opsiynau amgen yn cael eu harchwilio. Yn gyffredinol, dengys y gweithredoedd hyn gynnydd parhaus o ran trawsnewid ddigidol, wrth gydnabod bod rhai elfennau angen eu mireinio ymhellach wrth i'r rhaglen ddatblygu. | Yn unol â'r cynllun - dyddiad targed Mawrth 2027 |
| 6. Nid yw'r Cyngor yn mapio pob ffynhonnell sicrwydd | Swyddfa'r Prif Weithredwr / Digidol, Perfformiad a Moderneiddio / Adnoddau | Mae cynnydd wedi'i wneud o ran cryfhau dulliau'r Cyngor o fapio ffynonellau sicrwydd, er bod elfennau allweddol yn parhau i gael eu datblygu. Cwblhawyd gwaith yn gysylltiedig ag adolygu'r Gofrestr Risgiau Strategol, cam paratoi sylfaenol ar gyfer sefydlu dull mapio sicrwydd cadarn a chydlynus. Ochr yn ochr â hyn, mae'r Grŵp Llywodraethu a sefydlwyd yn ddiweddar wedi dechrau cyflawni rôl gydgordio ac mae'n gyfrifol am adolygu llinellau sicrwydd y Cyngor fel rhan o'i raglen ehangach, sydd yn cynnwys prosesau'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, y Cod Llywodraethu Lleol a'r Adroddiad Hunanasesu a Pherfformiad (Llesiant). | Ar ei hôl hi |

| Materion llywodraethu a nodwyd | Swyddog / Gwasanaeth / Bwrdd Arweiniol | Diweddariad ar gynnydd | Statws CAMG |
|---|---|---|---|
| | | Mae gwaith wedi dechrau ar y llinellau cyntaf ac ail, yn dilyn cwblhau'r Gofrestr Risgiau Strategol. Mae cynnydd yr ymarfer mapio sicrwydd wedi bod yn arafach na'r disgwyl ac mae'n parhau i fod tu ôl i'r amserlen. Mae disgwyl i'r Grŵp Llywodraethu ddatblygu'r gwaith hwn yn ystod 2026/27 pan fydd gwaith mapio ffynonellau sicrwydd cynhwysfawr a systematig yn cael ei wneud ar draws y Cyngor. Bydd y gweithredoedd hyn yn bwysig i gryfhau trosolwg, gwella trefniadau llywodraethu a darparu darlun mwy eglur o sut mae risgiau'n cael eu rheoli ar draws y sefydliad. | |

DRAFT

## Gwaith llywodraethu nodedig arall a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn

### Asesiad Perfformiad Panel

Ym mis Tachwedd 2025, comisiynodd y Cyngor Asesiad Perfformiad Panel (APP) statudol trwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Roedd yr adolygiad cymheiriaid annibynnol yn darparu sicrwydd lefel uchel, cadarn ynglŷn â pherfformiad, capasiti a threfniadau llywodraethu cyffredinol y Cyngor. Amlygodd y Panel nifer o gryfderau ar draws y sefydliad ond cyhoeddodd wyth o argymhellion hefyd i sicrhau fod y Cyngor yn parhau i foderneiddio a chynnal ei wydnwch. Er mwyn sicrhau aliniad strategol rhwng yr adolygiad cymheiriaid allanol a'r hunanasesiad mewnol, mae argymhellion llywodraethu penodol yr APP wedi cael eu hymgorffori'n uniongyrchol yng Nghynllun Gweithredu Materion Llywodraethu a Nodwyd y Cyngor ar gyfer 2026/27.

DRAFFT

## Materion Llywodraethu a Nodwyd 2025/26

Er nad yw'r un o'r materion yn cyrraedd trothwy 'materion llywodraethu sylweddol', fel y diffinnir hynny yng nghanllawiau CIPFA, nodwyd rhai meysydd llywodraethu i'w gwella. Maent yn adlewyrchu'r risgiau a'r gwendidau mewn rheolaethau a nodwyd drwy waith archwilio mewnol, adolygiadau allanol a fframwaith sicrwydd ehangach y Cyngor ac maent yn destun monitro parhaus fel rhan o drefniadau llywodraethu'r Cyngor.

Dalier Sylw: I osgoi dyblygu mae'r risgiau perfformiad gweithredol, strategaethau economaidd a phrosiectau moderneiddio gwasanaeth yn cael eu monitro drwy adroddiad Hunanasesu a Pherfformiad (Llesiant) statudol y Cyngor. Mae'r materion isod y mae'r Cyngor yn cadw llygaid arnynt yn ymwneud yn uniongyrchol ag amgylchedd rheoli mewnol y Cyngor, cydymffurfiaeth statudol, trefniadau llywodraethu a adolygwyd gan gymheiriaid a fframweithiau sicrwydd.

| **Materion llywodraethu a nodwyd** | **Camau gwella a nodwyd** | **Swyddog / Gwasanaeth / Bwrdd Arweiniol** | **Beth fydd yn digwydd os nad ydynt yn cael eu cyflawni?** | **Erbyn Pryd** |
|---|---|---|---|---|
| 1. Mae'n rhaid i'r Cyngor sicrhau trefniadau caffael a rheoli contractau effeithiol sy'n bodloni'r gofynion. | • Rhoi ar waith y gweithredoedd a gytunwyd o'r Cynllun Strategol Caffael nad ydynt wedi cael eu gweithredu eto.<br>• Datblygu a Gweithredu Strategaeth Gwerth Cymdeithasol i sicrhau bod Gwerth Cymdeithasol yn cael ei gynnwys yn gyson ac yn ystyrlon mewn prosesau caffael.<br>• Datblygu a gweithredu Polisi Rheoli Contractau sydd yn amlinellu sut y dylid rheoli contract ar sail ei broffil risg. | Adnoddau | • Gallai methu â chydymffurfio arwain at ddirwyon, camau cyfreithiol a chraffu gan reoleiddwyr<br>• Niweidio enw da'r Cyngor<br>• Methiant gwasanaeth posib<br>• Methu â chyflawni nodau gwerth cymdeithasol ehangach | Mawrth 2029 |
| 2. Mae'n rhaid i'r Cyngor gryfhau ei drefniadau | • Cwblhau'r ymarfer mapio sicrwydd ar gyfer y Cyngor | Grŵp Llywodraethu / | • Llai o sicrwydd ynghylch trefniadau llywodraethu | Mawrth 2027 |

| Materion llywodraethu a nodwyd | Camau gwella a nodwyd | Swyddog / Gwasanaeth / Bwrdd Arweiniol | Beth fydd yn digwydd os nad ydynt yn cael eu cyflawni? | Erbyn Pryd |
|---|---|---|---|---|
| sicrwydd a'i drefniadau rheoli sicrwydd ar gyfer Gwasanaethau | • Gweithredu cynllun gwella rheoli risgiau ar lefel gwasanaethau er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei weithredu'n gyson ym mhob gwasanaeth. | Swyddfa'r Prif Weithredwr / Adnoddau | • Anghysonderau wrth reoli risgiau<br>• Risg uwch o ran darparu gwasanaethau | |
| 3. Mae'n rhaid i'r Cyngor gryfhau gwydnwch Llywodraethu Gwybodaeth mewn perthynas â chydymffurfio statudol a chapasiti | • Cyflwyno hyfforddiant ymwybyddiaeth tor-diogelwch data wedi'i dargedu i staff er mwyn atgyfnerthu diwylliant adrodd mewnol<br>• Sefydlu model capasiti hirdymor, cynaliadwy ar gyfer y rôl Swyddog Diogelu Data Ysgolion | Busnes y Cyngor / Dysgu | • Achosion o dor-diogelwch data heb eu lliniaru yn arwain at ddirwyon difrifol o dan ddeddfwriaeth GDPR y DU a niweidio enw da'r Cyngor.<br>• Un pwynt methiant ar gyfer goruchwylio diogelu data statudol mewn ysgolion | Mawrth 2027 |
| 4. Mae'n rhaid i'r Cyngor gryfhau ei swyddogaeth Sgriwtini er mwyn ymateb yn effeithiol i flaenoriaethau'r sefydliad | • Cryfhau'r rhaglen datblygu aelodau fel rhan o'n proses gynefino ar gyfer aelodau yn dilyn yr etholiadau llywodraeth leol yn 2027.<br>• Adolygu trefniadau llywodraethu sgriwitni ac ystyried sut y gellir craffu'n well ar faterion economaidd. | Busnes y Cyngor | • Trosolwg a her ddemocrataidd aneffeithiol o benderfyniadau'r pwyllgor gwaith<br>• Methu â dal y sefydliad i gyfrif am ganlyniadau economaidd a strategol | Mehefin 2027 |
| 5. Mae'n rhaid i'r Cyngor fireinio ei fframwaith Monitro Perfformiad | • Adolygu'r fframwaith monitro perfformiad i gryfhau sicrwydd trwy fonitro ac | Swyddfa'r Prif Weithredwr / Digidol, | • Diffyg cyswllt rhwng gweithredoedd dydd i ddydd a nodau strategol hirdymor | Gorffennaf 2027 |

DRAFT

| Materion llywodraethu a nodwyd | Camau gwella a nodwyd | Swyddog / Gwasanaeth / Bwrdd Arweiniol | Beth fydd yn digwydd os nad ydynt yn cael eu cyflawni? | Erbyn Pryd |
|---|---|---|---|---|
| | adrodd yn effeithiol ar gynnydd yn erbyn Cynllun y Cyngor a Chynlluniau Strategol<br>• Cryfhau'r cyswllt rhwng y maes rheoli risg, rheolaeth ariannol a monitro perfformiad.<br>• Sicrhau fod cynlluniau strategol yn llywio datblygiad amcanion strategol a dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer y Cynllun y Cyngor nesaf (o 2028) | Perfformiad a Moderneiddio / Adnoddau | • Dyrannu adnoddau i feysydd nad ydynt yn cael fawr o effaith<br>• Y Pwyllgor Gwaith yn gwneud penderfyniadau strategol diffygiol | |
| 6. Mae'n rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod yn cydymffurfio â Rheolau Safonau Gweithredol (Cymru) 2024 mewn perthynas â swyddogaethau Rheolaeth Adeiladu, yn dilyn ymchwiliad rheoleiddio gan Weinidogion Cymru. | • Gweithredu a monitro'r camau gweithredu a gytunwyd, gan gynnwys cryfhau trefniadau llywodraethu a throsolwg drwy'r Grŵp Ymateb Rheolaeth Adeiladu | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd / Grŵp Ymateb Rheolaeth Adeiladu | • Gallai methu â chydymffurfio arwain at ymyrraeth barhaus gan reoleiddwyr, mwy o risgiau cyfreithiol a diogelwch, a niweidio enw da'r Cyngor | Rhagfyr 2026 |

DRAFT

# Ardystio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Rydym wedi ein cynghori ynglŷn ag oblygiadau canlyniad yr adolygiad o effeithlonrwydd y fframwaith llywodraethu gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, ar sail y sicrwydd a ddarparwyd drwy'r Adolygiad o Effeithiolrwydd a barn flynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol, a bod y trefniadau yn parhau i gael eu hystyried yn addas i bwrpas yn unol â'r fframwaith llywodraethu. Mae'r meysydd sydd eisoes wedi cael sylw a'r rhai fydd yn derbyn sylw penodol trwy gamau gweithredu newydd sydd ar y gweill yn cael eu hamlinellu yn y ddogfen.

Er nad oes unrhyw faterion yn cyrraedd trothwy 'materion llywodraethu sylweddol', nodwyd rhai meysydd llywodraethu sydd angen eu gwella ac rydym yn bwriadu cymryd camau priodol i fynd i'r afael â nhw a gwella ein trefniadau llywodraethu a sicrwydd ymhellach yn ystod y flwyddyn nesaf.

Byddwn yn monitro gweithrediad y gwelliannau trwy'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac fel rhan o'n hadolygiad blynyddol nesaf.

**Ar ran Cyngor Sir Ynys Môn**

**Y Cynghorydd Gary Pritchard**
**Arweinydd, Cyngor Sir Ynys Môn**
**Gorffennaf 2026**

**Dylan Williams**
**Prif Weithredwr, Cyngor Sir Ynys Môn**
**Gorffennaf 2026**

DRAFT

# Atodiad 1

## Cod Rheolaeth Ariannol CIPFA (2019)

Dyluniwyd Cod Rheolaeth Ariannol CIPFA (2019) i gefnogi arfer dda yn y maes rheolaeth ariannol a chynorthwyo awdurdodau lleol i arddangos eu cynaliadwyedd ariannol yn yr hirdymor. O dan y Cod, mae'n ofynnol i gynghorau ddangos eu bod yn cydymffurfio'n barhaus â chwe egwyddor graidd: Arweinyddiaeth, Atebolrwydd, Tryloywder, Safonau Proffesiynol, Sicrwydd a Chynaliadwyedd.

Yn dilyn ei ddatganiad gwreiddiol ei fod yn cydymffurfio'n llawn yn 2022, mae Cyngor Sir Ynys Môn yn sicrhau ei fod yn parhau i gydymffurfio â'r Cod Rheolaeth Ariannol trwy adolygiad mewnol parhaus a chraffu allanol cadarn. Yn ystod 2025/26, profwyd gwydnwch ariannol y Cyngor mewn dau adolygiad allanol ac un adolygiad Archwilio Mewnol perthnasol:

- Asesiad Cynaliadwyedd Ariannol Archwilio Cymru: Daethpwyd i'r casgliad bod y Cyngor yn cynnal trefniadau da i ymateb i heriau ariannol yn y tymor byr a'r tymor canolig. Er bod Archwilio Cymru yn argymell ffurfioli strategaethau ariannol hirdymor, nododd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ffurfiol bod cynllunio ariannol hirdymor manwl iawn yn parhau i gael ei gyfyngu yn ei hanfod gan ddibyniaeth Llywodraeth Cymru ar setliadau cyllido am flwyddyn yn unig.
- Asesiad Perfformiad Panel Annibynnol (Tachwedd 2025): I liniaru cyfyngiadau setliadau blwyddyn yn unig a chryfhau egwyddor 'Cynaliadwyedd' y Cod Rheolaeth Ariannol, roedd y Panel yn argymell datblygu Cynllun Moderneiddio trawsbynciol wedi'i alinio'n agos â'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC). Mae hyn yn sicrhau fod adnoddau'n cael eu blaenoriaethu'n effeithlon i gwrdd â bylchau ariannu yn y dyfodol ac mae bellach yn flaenoriaeth sy'n cael ei fonitro'n ffurfiol yng Nghynllun Gweithredu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2026/27.
- Archwilio Mewnol - 'Rheolaeth Ariannol: monitro cyllidebau a llunio rhagolygon': Daeth yr adroddiad i'r casgliad fod "trefniadau'r cyngor ar gyfer rheoli cyllidebau, llunio rhagolygon ariannol a monitro perfformiad yn gweithio'n effeithiol". Mae'r adroddiad yn amlygu "rhai meysydd i'w gwella mewn perthynas â darparu hyfforddiant a dargedir ar gyfer swyddogion y mae cyfrifoldeb wedi'i ddirprwyo iddynt am gyllidebau, tracio gweithredoedd cyfarfodydd y Panel Sgriwtini Adnoddau ac opsiynau i wella gwybodaeth monitro ariannol, sydd yn cynnig cyfle i gryfhau'r trefniadau presennol".

## Casgliad Statudol:

O ystyried y rheolaethau mewnol ac adolygiadau diweddar gan gymheiriaid allanol, mae'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 yn cadarnhau bod y Cyngor yn cymryd camau rhagweithiol i reoli ei bwysau ariannol tymor canolig, ei fod yn cynnal fframwaith cadarn o reolaethau mewnol a'i fod yn arddangos cydymffurfiaeth ag egwyddorion craidd Cod Rheolaeth Ariannol CIPFA, ac mae camau gweithredu parhaus ar waith i gryfhau trefniadau ymhellach lle nodwyd cyfleoedd gwella.